| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Cyngor Sir |
| Dyddiad: | 25 Ebrill 2022 |
| Pwnc: | Penodi Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| Aelod(au) Portffolio: | Amherthnasol |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad: | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Pwrpas yr adroddiad**

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae angen i draean o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn gymeradwyo'r tri aelod lleyg ychwanegol a ddewiswyd a'u penodi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chefnogi bod yr aelod lleyg presennol yn parhau am un tymor pellach o bum mlynedd.

Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, gofynnir i'r cyngor gymeradwyo penodi'r aelodau lleyg newydd ar gyfer y tymor newydd ac ailbenodi'r aelod lleyg presennol.

**Argymhelliad**

1. **Cymeradwyo'r tri ymgeisydd a ddewiswyd a'u penodi yn aelodau lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
2. **Cytuno bod yr aelod lleyg presennol yn parhau am ail dymor o bum mlynedd**

**Cefndir**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno newidiadau i'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu, gan gynnwys newidiadau i aelodaeth, cyfansoddiad a thrafodion y pwyllgor (adrannau 116-118). Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid:

- i draean o aelodau'r Pwyllgor fod yn unigolion lleyg a dau draean yn aelodau o'r Cyngor
- i'r Pwyllgor benodi aelod o'r Pwyllgor fel ei Gadeirydd (a rhaid iddo fod yn unigolyn lleyg); a

| A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| • i'r Pwyllgor benodi aelod o'r Pwyllgor fel ei Ddirprwy Gadeirydd (a ni chaiff fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith nac yn gynorthwyydd i'r Pwyllgor Gwaith).<br><br>Mae adran 117 y Ddeddf yn diffinio 'unigolyn lleyg' fel rhywun:<br>• nad ydynt yn aelod na'n swyddog mewn unrhyw awdurdod lleol<br>• nad ydynt ar unrhyw adeg o fewn cyfnod o 12 mis, gan ddechrau gyda dyddiad penodi'r unigolyn hwnnw, wedi bod yn aelod o neu'n swyddog mewn unrhyw awdurdod lleol; ac<br>• nad ydynt yn ŵr na gwraig na'n bartner sifil i unrhyw aelod neu swyddog o unrhyw awdurdod lleol.<br><br>Ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn mae hyn yn golygu y bydd angen pedwar aelod lleyg. Mae Mr Dilwyn Evans, yr aelod lleyg presennol, wedi dweud ei fod yn fodlon gwasanaethu am ail dymor o bum mlynedd, a darperir ar gyfer hynny yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (ac yn y Cyfansoddiad). Mae angen tri aelod lleyg ychwanegol i gydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br><br>Gweithiodd y Cyngor gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu ffurflen gais a hysbyseb ar gyfer recriwtio aelodau lleyg, yn ogystal â rhaglen hyrwyddo genedlaethol. Gweithiom gyda'n Tîm TG Mewnol i ddatblygu ffurflen gais ar-lein yn benodol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.<br><br>Derbyniodd y Cyngor 13 ffurflen gais. O gymharu â gweddill Cymru, roedd hyn yn ymateb da iawn. Cynhaliwyd ymarfer llunio rhestr fer ar 19 Ionawr 2022 gan banel a oedd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151. Nododd y panel bedwar ymgeisydd i'w cyfweld.<br><br>Cafodd y pedwar ymgeisydd eu cyfweld gan banel a oedd yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r darpar Brif Weithredwr ar y pryd. Dewisodd y panel cyfweld y tri ymgeisydd a ganlyn i'w hystyried ar gyfer eu penodi:<br><br>• Michael Wilson, o Langefni, Ynys Môn<br>• Sharon Warnes, o Bwllheli, Gwynedd<br>• William Parry, o Rosneigr, Ynys Môn<br><br>Mae bob un o'r ymgeiswyr hyn wedi derbyn eu gwahoddiad i gael eu hystyried ar gyfer eu penodi a derbyniwyd dau eirda boddhaol ar gyfer pob un ohonynt. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
| --- |
| Gwneud dim. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu na fyddai'r Cyngor yn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
| --- |
| |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Adlewyrchir darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ac yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn unol â'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'n sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'n gyfreithlon. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut? | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Na |
| 5 | Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg. | Cymerodd y Cyngor ran mewn ymgyrch recriwtio genedlaethol wedi'i harwain gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i sicrhau bod grwpiau anodd eu cyrraedd a heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael cyfle cyfartal i ymgeisio am y swydd. Cyhoeddwyd hysbyseb ar wefan y WLGA a oedd yn cyfeirio ymgeiswyr |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | | posib at dudalen we benodedig y Cyngor. Hysbysebwyd y swyddi gwag yn eang gan y WLGA, yn cynnwys yn *Guardian Jobs*, a'u cylchredeg ar rwydweithiau proffesiynol, h.y. Rhwydwaith Swyddogion Cydraddoldeb Cymru Gyfan, rhwydwaith cyfarwyddwyr anweithredol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, alumni a chyn-gyfranogwyr rhaglen fentora Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru/Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru, yn ogystal â'u hyrwyddo ar *Wales Online*. Yn lleol, hysbysebodd y Cyngor y swyddi gwag ar gyfryngau eraill yr oedd pobl ifanc yn debygol o'u defnyddio, megis *Facebook* a *LinkedIn*, yn unol â dyletswydd y Cyngor i ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Dim effaith |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Roedd y Prif Weithredwr yn aelod o'r panel cyfweld. |
| 2 | Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol) | Roedd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn aelod o'r panel llunio rhestr fer a'r panel cyfweld. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Dim sylw |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Bu iddynt gynorthwyo i greu tudalen we ddynodedig a ffurflen gais ar-lein |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021<br>Cyfansoddiad |